**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/PO/0143/24

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

24 Mai 2024

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â chyfraith yr UE a ddargedwir (REUL). Gweler yr atebion isod i'ch cwestiynau:

**Eich asesiad o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru**

Rydym yn rhannu pryderon y Pwyllgor am effaith negyddol bosibl Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Ar y cyfan, rydym yn dal i fod o'r farn bod Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn ddiangen, yn amwys ac yn seiliedig ar agenda wleidyddol. Nid yw'n sail synhwyrol ar gyfer diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir, y gellid bod wedi'i wneud mewn modd mwy ystyriol yn raddol dros gyfnod o flynyddoedd.

Fel y mae, rydym yn hyderus nad yw dirymu'r ddeddfwriaeth a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf yn cael unrhyw effaith uniongyrchol a sylweddol ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gennym bryderon penodol am y pwerau y mae'r Ddeddf yn eu rhoi i Weinidogion y DU i ddiwygio darnau presennol o gyfraith yr UE a ddargedwir (a elwir bellach yn "gyfraith a gymathwyd") drwy offeryn statudol. Nid oes gennym wybodaeth ar hyn o bryd ynghylch sut na phryd y gellid defnyddio'r pwerau hyn i ddiwygio cyfraith amgylcheddol, nac ym mha feysydd y gellid gwneud hynny, ac rydym yn ceisio eglurder pellach gan Defra. Er na fyddai unrhyw ddiwygio o'r fath mewn meysydd cymhwysedd datganoledig fel arfer yn cael ei ymestyn i Gymru gan benderfyniadau Gweinidogion y DU a Senedd y DU, gallai goblygiadau trawsffiniol unrhyw newidiadau o'r fath gael effeithiau negyddol yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Defra i ddeall eu bwriadau yn y maes hwn a byddant yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Eich barn ar y goblygiadau ar gyfer llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru.**

Er bod agweddau ar gyfraith amgylcheddol yr UE wedi'u cadw drwy Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir, un o'i heffeithiau yw dileu gweddill effeithiau egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir yn y DU fel nad ydynt bellach yn cymhwyso nac yn dylanwadu ar ddehongli cyfraith yr UE a gadwyd fel arall ar lyfr statud y DU. Mae hyn yn cynnwys yr egwyddorion amgylcheddol a nodir yn Erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE.

Yn sgil hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru. Yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad y papur gwyn bydd y Bil Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth yn gwneud darpariaeth i nodi egwyddorion amgylcheddol sy'n adlewyrchu rhai'r UE. Drwy'r bil hwn, byddwn yn rhagori ar y trefniadau blaenorol drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau polisi. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod yr egwyddorion yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar sail statudol unwaith y daw'r Bil i rym.

Bydd y dull hwn yn cael ei gefnogi ymhellach drwy sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol, a fydd yn goruchwylio cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru â chyfraith amgylcheddol - gan gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol – yn ogystal â monitro effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru**.**

**Byddwch yn ymwybodol o’r gohebu blaenorol â’r cyn-Weinidog Newid Hinsawdd iddi ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru am gadw elfennau o’r Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol a oedd wedi’u cynnwys gan Lywodraeth y DU yn Atodlen 1 ar gyfer eu dirymu’n awtomatig ar 31 Rhagfyr 2023.**

**i. A allech ddarparu’r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau rhynglywodraethol ynghylch y rheoliadau hyn?**

Mae Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 (NECR) yn gosod targedau lleihau allyriadau yn y DU ar gyfer pum llygrydd sydd i'w cyflawni erbyn 2030. Caiff darpariaethau'r Rhaglen Genedlaethol Rheoli Llygredd Aer (NAPCP) yn y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol eu dirymu gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Roedd dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i adolygu a chyhoeddi NAPCP o fewn 18 mis pe bai amcanestyniadau allyriadau yn dangos na fyddai'r targedau'n cael eu cyrraedd. Mae'r mesurau sydd wedi'u cynnwys mewn NAPCP yn dangos sut y byddai'r DU yn cyrraedd ei thargedau. Roedd dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd i ymgynghori â'r cyhoedd cyn paratoi neu ddiwygio'r NAPCP yn sylweddol.

Cafodd y penderfyniad gan Lywodraeth y DU i ddileu darpariaethau'r NAPCP o'r Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol yng nghyd-destun Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir ei wneud heb iddo gael ei ystyried drwy'r Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer. Er bod gwendidau cydnabyddedig â’r broses, rwyf am osgoi gwanhau amddiffyniadau amgylcheddol.

Ar hyn o bryd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra a'r Llywodraethau Datganoledig eraill drwy'r Fframwaith Cyffredin Ansawdd Aer i lywio'r trefniadau amgen y mae Defra yn bwriadu eu cyflwyno i'r NAPCP. Maent wedi pwysleisio wrth Defra bod tryloywder a chraffu cyhoeddus yn agweddau pwysig ar Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), ac rwy'n awyddus i'w gweld yn cael eu harfer yma.

**ii. A fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf, neu bwerau eraill sydd ar gael i Weinidogion Cymru, i adfer y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol, yn gyfan gwbl neu’n rhannol?**

Mae targedau lleihau allyriadau'r DU a'r darpariaethau adrodd a nodir yn y rheoliadau yn parhau i fod ar waith. Mae fy swyddogion yn parhau i drafod â Defra a'r Llywodraethau Datganoledig eraill i geisio dull gweithredu agored a chydweithredol ledled y DU o safbwynt datblygu prosesau i gyflawni targedau'r DU. Felly nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i ddefnyddio ei phwerau yn y cyd-destun hwn.

**iii. A yw dirymiad y Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol wedi cael unrhyw effaith ymarferol?**

Gan nodi bod y targedau lleihau allyriadau a'r darpariaethau adrodd yn parhau i fod ar waith, bydd unrhyw effeithiau ehangach ymarferol o ddirymu darpariaethau NAPCP yn dibynnu ar y trefniadau amgen a fabwysiedir.

**Eich barn am y ffaith y daeth egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE i ben ar ddiwedd 2023 a’r goblygiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.**

Fel yr amlinellais eisoes, gan fod Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn diddymu’r effeithiau sy'n weddill o egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a ddargedwir yn y DU, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru.

**Eich barn am y cynlluniau a nodir gan Lywodraeth y DU yn ei hadroddiad cyntaf ar gyfraith yr UE a ddargedwir i Senedd y DU fel y maent yn ymwneud â meysydd yng nghylch gwaith y Pwyllgor hwn, yn enwedig ei amserlen, gallu Llywodraeth Cymru i ymateb a goblygiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru;**

**i. A allech gadarnhau pa rôl, os o gwbl, oedd gan Lywodraeth Cymru yn y broses o baratoi’r adroddiad hwn?**

Ni cheisiodd Llywodraeth y DU unrhyw fewnbwn gan y llywodraethau datganoledig wrth baratoi ei hadroddiad cyntaf i Senedd y DU ar Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir. Fel y nodwyd yn ein Datganiad Ysgrifenedig, a gyhoeddwyd mewn ymateb i'r adroddiad; "mater i'r deddfwrfeydd datganoledig yw penderfynu a ddylai cyfraith a pholisi domestig fod yn wahanol i gyfraith a pholisi'r UE, sut y dylai hynny ddigwydd ac i ba raddau. Mae'r egwyddor hon yr un mor gymwys i'r ystod gyfan o newidiadau y gellir defnyddio pwerau Deddf REUL i'w cyflawni.

**A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o newidiadau ychwanegol sydd ar y gweill o dan y Ddeddf i gyfraith amgylcheddol gymathedig?**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw newidiadau ychwanegol arfaethedig o dan y Ddeddf i gyfraith amgylcheddol a gymathwyd. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig, byddwn yn eich hysbysu drwy'r dulliau arferol.

**A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i ddefnyddio pwerau yn Neddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir mewn perthynas â'r amgylchedd?**

Nid oes unrhyw gynlluniau gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phwerau o dan y Ddeddf i ddirymu unrhyw ddarnau pellach o gyfraith a gymathwyd, nac i gyflwyno deddfwriaeth newydd i ddisodli deddfwriaeth a gynhwyswyd yn Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Diolch am dynnu fy sylw at y materion manwl hyn a gobeithiaf y bydd yr ymateb yma o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs